Diweddariad Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd: Hydref – Rhagfyr 2019

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Cyfanswm nifer yr unigolion dan gadw a fu drwy'r ddalfa	Nifer yr ymweliadau gan YAD	Cyfanswm nifer yr unigolion dan gadw yn y ddalfa ar adeg ymweliadau gan YAD	Cyfanswm nifer yr unigolion dan gadw nad oedd ar gael	Nifer yr unigolion dan gadw yr arsylwyd arnynt	Cyfanswm nifer yr unigolion dan gadw yr ymwelwyd â nhw
1674	43	87	21	19	47

Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (YAD) Gweithredol: 24

- Sir Benfro: 6
- Powys: 7
- Ceredigion: 4
- Sir Gaerfyrddin: 7

Diweddariad ynghylch Recriwtio

Mae tri Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd yn disgwyl cael eu fetio. Mae dau YAD newydd yn disgwyl ymuno â thîm Aberystwyth ac 1 YAD yn disgwyl ymuno â thîm Powys. Yn amodol ar basio cliriad fetio bydd pob YAD newydd yn dechrau ymweld yn y flwyddyn newydd.

Diweddariad ar y Cynllun:

Mae Dyfed-Powys wedi ymrwymo i gynllun Peilot Goruchwylwyr Dalfeydd Annibynnol Cymdeithas yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol a fydd yn caniatáu i YAD adolygu cofnodion dalfa'r rhai hynny y nodwyd eu bod yn Unigolion dan Gadw agored i niwed, gan ystyried eu taith lawn drwy'r ddalfa. Cychwynnodd y cynllun Peilot ym mis Medi 2019 gydag YAD mewn parau yn adolygu detholiad o gofnodion dalfa bob wythnos, gan ateb cwestiynau penodol ar bob cofnod er mwyn adnabod meysydd posibl ar gyfer gwelliant a meysydd penodol lle ceir arfer da. Mae'r Peilot yn rhedeg ochr yn ochr â'r Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd gydag adolygiadau o gofnodion Dalfeydd yn cael eu cynnal yn ychwanegol i'r Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd wythnosol i'n dalfeydd ar draws Dyfed-Powys.

Darganfyddiadau YAD – Materion a godwyd

- Celloedd wedi eu cau mewn nifer o ddalfeydd o ganlyniad i faterion cynnal a chadw – mae'r Tîm Ystadau yn ymwybodol o hyn ac mae gwaith wedi ei gynllunio.
- Drysau celloedd yn rhwystro camerâu teledu cylch cyfyng.
- Diffyg Beibl neu lyfr crefyddol yn un o'r dalfeydd – Beibl Newydd wedi ei brynu.
- Problemau gyda'r gwres yn un o'r dalfeydd – mae'r Tîm Ystadau wedi cyflawni gwaith i ddatrys y mater hwn.
- Cawod wedi torri – cynlluniau mewn lle i droi'r bloc cawodydd yn storfa ar gyfer y ddalfa.